Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd

Iechyd ar Waith – Cyfraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

EBRILL 2009

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddywr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/y cyhoeddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Prif ganfyddiadau **3**

Argymhellion **6**

Effaith cynnwys rhieni **7**

Safonau cyflawniad 7

Safonau ymddygiad 9

Presenoldeb 10

Gwella dysgu oedolion 11

Cynnwys mewn grwpiau sefydlu a maethu 11

Graddau cynnwys rhieni 12

Y polisi ‘drws agored’ 14

Llywodraethu 14

Datblygu adnoddau a darpariaeth 16

Diwallu anghenion rhieni 19

Atodiad 1

Grwpiau maethu

Cyfeiriadau

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad cylch gwaith hwn yw ymateb i'r cais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn yn 2008-2009 am wybodaeth am arfer dda o ran y modd y mae ysgolion cynradd yn cynnwys rhieni[1] yn effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion ac i wella'r safonau y maent yn eu cyflawni.

2 Ymgymerir â'r cylch gwaith hwn yng nghyd-destun y cyfeiriad strategol a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' 2006 sy'n rhoi pwyslais allweddol ar wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr. Mae'r cylch gwaith hefyd yn ystyried rhaglen gyfredol Llywodraeth y Cynulliad, 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru', sy'n canolbwyntio ar wella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus er mwyn creu canlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion.

3 Yn gysylltiedig â rhaglen gyfredol y Cynulliad ar gyfer safonau uwch a chyflwyno gwell, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dylunio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i wella profiadau addysgol a chyfleoedd bywyd i holl blant a phobl ifanc Cymru.

4 Fel rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn disgrifio un o ddibenion cenedlaethol ysgolion fel un i 'ddarparu cymuned ddysgu ar gyfer pawb sy'n ymwneud â bywyd ysgol, gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolbwynt iddi'.

5 Mae ymchwil yn dangos bod canlyniadau dysgu yn gwella pan fydd dealltwriaeth gyfrannol rhwng athrawon, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill o'r prosesau sy'n arwain at ddysgu gwell a lles gwell yn yr ystafell ddosbarth. Gall cyfleoedd i rieni gyfranogi mewn gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth alluogi teuluoedd i adeiladu eu cryfderau eu hunain fel mentoriaid dysgu. Gall cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref ddarparu cymorth ac anogaeth fwy effeithiol i blant a phobl ifanc.

6 Mae gan rieni ran bwysig yn addysg eu plant ac maent yn chwarae rhan arwyddocaol i gefnogi dysgu'u plant. Mae cynnwys rhieni yn effeithiol yn gosod dyheadau ac yn llunio hunansyniad y plentyn fel dysgwr.

7 Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r canlynol yn berthnasol hefyd yng nghyd-destun yr adroddiad hwn:

- ymateb i argymhellion adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb[2]; a
- chodi safonau trwy ddarparu cyllid i dargedu cysylltiadau rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion yng Nghymru[3], y fenter Rhagori.

[1] Mae cyfeiriadau at rieni yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ofalwyr neu warcheidwaid hefyd.
[2] Adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb – adolygiad annibynnol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Ken Reid. cyh. APADGOS 2008
[3] 'Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru' 2006 (Rhagori)

8 Mae'r adroddiad cylch gwaith hwn yn brosiect rhagarweiniol i nodi arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd. Mae'r sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad yn tynnu ar:

- arolwg o bob awdurdod lleol (ALl) yng Nghymru er mwyn nodi arfer dda yn eu hysgolion cynradd;
- ymweliadau â sampl gynrychioliadol o 17 o ysgolion cynradd mewn saith awdurdod lleol yng Nghymru;
- cyfweliadau â phenaethiaid, athrawon, rhieni lywodraethwyr a grwpiau o gynrychiolwyr rhieni eraill mewn ysgolion cynradd; a
- thystiolaeth ddogfennol bellach, gan gynnwys adroddiadau arolygu ysgolion cynradd Estyn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn academaidd 2007-2008.

9 Roedd y gwaith maes yn cynnwys ysgolion cynradd a fu'n gysylltiedig â:

- y fenter beilot Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion;
- cael cyllid Rhagori;
- prosiect awdurdod lleol i hyrwyddo menter Dysgu Teuluol yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol;
- mentrau i annog teuluoedd 'anodd eu cyrraedd'; a
- datblygu prosiectau arloesol mewn agweddau ar gynnwys rhieni, fel llywodraethu.

Prif ganfyddiadau

10 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae natur a chwmpas cynnwys rhieni yn amrywiol iawn. Nid ymddengys bod unrhyw batrwm clir i'r modd y mae ysgolion yn cynnwys rhieni, ac nid oes ychwaith unrhyw fonitro ffurfiol o'r graddau y mae rhieni'n cael eu cynnwys.

11 Lle mae rhieni'n cael eu cynnwys yn arbennig o effeithiol, y gyrrwr pwysicaf unigol yw brwdfrydedd y pennaeth. Pan fydd ysgol yn cynllunio ac yn gweithredu polisïau cadarnhaol i gynnwys rhieni, gall hyn gael effaith sylweddol ar wella lles disgyblion, yn enwedig mewn perthynas ag ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol. Er enghraifft, mae tair o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn trefnu grwpiau maethu (gweler Atodiad 1) ar gyfer disgyblion arbennig o anghenus. Mae'r grwpiau hyn yn gweithio'n agos gyda rhieni a gallant ddangos tystiolaeth o'r modd y mae ymddygiad disgyblion wedi gwella trwy waith gyda'r rhieni a'r plant gyda'i gilydd.

12 Mae bron pob ysgol yn y sampl o'r farn eu bod yn cynnwys rhieni'n ddigonol ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, ond nid pob ysgol, yn cydnabod bod y cysylltiad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'u disgyblion.

13 Mae cynnwys rhieni yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn amrywio o ysgol yn cael ei disgrifio fel 'canolfan' y gymuned lle mae rhieni, gan gynnwys y rheiny o grwpiau difreintiedig, yn teimlo bod croeso mawr iddynt yn yr ysgol, ac maent yn disgwyl yn frwdfrydig am y prosiect nesaf, i ysgol lle yn anaml y caiff rhieni eu cynnwys ymhellach nag ychydig o ddigwyddiadau ffurfiol.

14 Mae'r ysgol yr ymwelwyd â nhw yn adrodd mai â'r meysydd traddodiadol o gynnwys rhieni y maent yn fwyaf hyderus â nhw, fel adrodd i rieni mewn nosweithiau rhieni, gwahodd rhieni i fynychu digwyddiadau ysgol, neu yn y gweithgareddau amrywiol i godi arian a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu trefnu gan lawer o ysgolion.

15 Mae'r arolwg yn cadarnhau'r canlynol:

- mae'r rhan fwyaf o rieni'n helpu eu plant gyda darllen a gwaith cartref;
- mae ychydig o rieni'n ymwneud â'r ysgol yn ddigymell, yn enwedig y rheiny sy'n hyderus ac sydd wedi cael addysg dda;
- mae gan bob ysgol ychydig o rieni o leiaf sy'n awyddus i wasanaethu fel rhiant lywodraethwyr neu i godi arian i'r ysgol, ond dim ond nifer fach o ysgolion sy'n gwneud ymdrech amlwg i gynnwys rhieni na fyddent yn disgyn i'r grŵp hwn yn naturiol;
- adroddodd pob ysgol bod mamau yn fwy tebygol o ymwneud â'r ysgol na thadau; ac
- mae'r ysgolion hynny sydd â hanes llwyddiannus o gynnwys rhieni yn sylweddoli pwysigrwydd rhwydweithiau teulu estynedig a chynnwys teidiau a neiniau yn arbennig.

16 Mae rhan fwyaf yr ysgolion yn y sampl yn cynllunio ac yn cyflawni ychydig o strategaethau arloesol i gynnwys rhieni, ac maent yn gwneud hynny'n effeithiol. Dim ond nifer fach iawn o ysgolion, fodd bynnag, sydd â dull cyson sy'n arwain at lefelau uchel o gynnwys rhieni ar draws ystod eang o weithgareddau.

17 Mae ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned[4] yn gallu dangos y modd y gall prosiectau graddfa fawr danio brwdfrydedd y gymuned a rhoi balchder i'r ysgol a'i disgyblion. Mae rhieni disgyblion yn yr ysgolion hyn yn teimlo'n gryf eu bod yn rhan o'r ysgol, ac maent yn adrodd eu bod eisiau cael eu cynnwys.

18 Mae'r ysgolion sy'n llwyddo fwyaf i annog rhieni i ddod yn gysylltiedig yn darparu lluniaeth yn aml fel cymhelliant i rieni 'anodd eu cyrraedd'.

19 Nid oes digon o weithgareddau ar gyfer rhieni sydd wedi'u cynllunio'n benodol i annog tadau i gymryd rhan. Mae ychydig o ysgolion yn gweithio'n galed i annog mamau nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg i ddod yn gysylltiedig a gwella'u medrau iaith eu hunain.

20 Yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd yr ysgol wedi bod yn rhagweithiol, wedi gwrando ar rieni, wedi mireinio'i gwaith i ystyried eu hawgrymiadau, ac wedi adeiladu ar weithgareddau yr oeddent yn eu hystyried yn llwyddiannus yr oedd yr arfer dda a welsom yn bennaf.

21 Lle mae arfer dda mewn cynllunio i gynnwys rhieni, mae ysgolion yn deall bod rhieni:

- yn hoffi cael eu cynnwys yn ysgol eu plentyn, ac maent eisiau teimlo eu bod mewn partneriaeth;
- eisiau i'r ysgol eu hadnabod yn bersonol fel unigolion, ac eisiau cael gwybodaeth gyson am y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud;
- angen derbyn gwybodaeth glir am drefniadau sefydlu a materion o ddydd i ddydd sy'n effeithio ar eu plant;
- yn teimlo'n fwy hyderus os ydynt yn adnabod y staff ac os oes ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o'r cwricwlwm;
- yn barod iawn i gefnogi digwyddiadau ysgol a darparu help ymarferol, ond yn llai tebygol o ymuno â phwyllgor;
- yn dod yn fwy cefnogol, po fwyaf y maent yn ymwneud â'r ysgol, yn enwedig os ydynt wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi; ac
- yn hoffi cael rheolau clir ar gyfer eu plant sy'n cael eu cymhwyso'n gyson, a rheolau sy'n cael eu dilyn ymlaen yn briodol, er enghraifft, ynghylch ymddygiad ar yr iard chwarae, neu ddisgwyliadau ar gyfer cwblhau gwaith cartref.

[4] 'Mae ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn ysgol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.' Cylchlythyr LICC Rhif 34/2003

22 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n rhoi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar brawf mewn ysgolion. Rhan o'r fenter hon yw cryfhau'r cysylltiadau rhwng rhieni ac ysgolion. Mae'r gwaith hwn yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynllun peilot ar gyfnod cynnar, ac nid yw wedi'i arfarnu eto. Nid yw data cenedlaethol cyhoeddedig ar ganlyniadau disgyblion ar ffurf i rieni ei ddarllen.

23 Yn 2006, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglen ar gyfer 'Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru' (Rhagori) trwy ddarparu cyllid i dargedu'r cysylltiadau rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion yng Nghymru. Dywedodd dwy ysgol bod cyllid Rhagori wedi bod yn hanfodol i weithredu'u grwpiau maethu. Ni wnaeth yr arolwg nodi tystiolaeth arall bod cyllid Rhagori yn cael ei ddefnyddio i dargedu mentrau i annog cynnwys rhieni.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 arfarnu'r effaith ar safonau a lles disgyblion lle mae ysgolion yn y cynllun peilot Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion wedi rhoi mentrau ar brawf i gryfhau'r cysylltiadau rhwng rhieni ac ysgolion, a rhannu canfyddiadau; a

A2 darparu gwybodaeth ar ffurf i rieni ei darllen yn hawd am safonau a lles disgyblion er mwyn annog rhieni i ddod yn fwy cysylltiedig â gweithio gydag ysgolion i osod targedau realistig ar gyfer eu plant.

Dylai awdurdodau addysg lleol:

A3 annog pob ysgol i gynllunio mwy o ffyrdd o gynnwys rhieni; a

A4 chwilio am enghreifftiau o arfer dda yn eu hysgolion, rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion a'u hannog i efelychu arfer dda.

Dylai ysgolion:

A5 sicrhau bod staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni drwy fod yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt yn yr ysgol ac ar yr iard chwarae, yn enwedig ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol;

A6 cynnwys rhieni mewn mentrau i wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion drwy esbonio disgwyliadau a rheolau'n glir iawn, gwobrwyo disgyblion sy'n gwella a chynnwys rhieni mewn dathliadau o lwyddiant;

A7 defnyddio rhieni fel gwirfoddolwyr yn ystod y diwrnod ysgol ac mewn dysgu ar ôl oriau ysgol, lle bo'n briodol;

A8 cynnwys aelodau teulu estynedig fel gwirfoddolwyr, gan gynnwys teidiau a neiniau sydd yn aml â medrau i'w rhannu ac amser i'w sbario;

A9 darparu mwy o wybodaeth i rieni, er enghraifft, trwy wneud cylchlythyrau yn fwy deniadol a haws eu darllen, trwy ddefnyddio testun syml ac amlieithog, gwefannau, e-bost a negeseuon testun, a chan gynnwys gwybodaeth am ddisgyblion a gwybodaeth am ddisgyblion ac wed'i hysgrifennu ganddynt;

A10 darparu ystod lawn o wybodaeth i rieni sy'n cynnwys manylion priodol am sefydlu neu phan fydd newidiadau neu absenoldebau staff;

A11 monitro a hyrwyddo cydbwysedd rhyw ac ethnig ar gyrff llywodraethol, ac annog tadau i ddod yn fwy cysylltiedig; a

A12 bod yn ddychmygus ac yn arloesol wrth gynllunio sut y gallent gynnwys rhieni'n fwy effeithiol, yn enwedig rhieni y gall fod angen help arnynt i ddatblygu medrau rhianta.

Effaith cynnwys rhieni

24 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw bron, nid yw effaith cynnwys rhieni ar effeithiolrwydd gwella ysgolion yn cael ei fonitro yn ffurfiol mewn unrhyw ffordd. Fe allai ysgolion yn y sampl, fodd bynnag, ddarparu rhywfaint o dystiolaeth o effaith mathau gwahanol o gysylltiad gan rieni.

Safonau cyflawniad

25 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, trwy ddealltwriaeth o'r cwricwlwm, gwybod am gynnydd eu plentyn a thrwy helpu gyda gwaith cartref, y mae rhieni'n chwarae rhan mewn gwella safonau yn bennaf.

26 Roedd llawer o'r ysgolion yr ymwelon ni â nhw wedi trefnu digwyddiadau cwricwlwm diweddar ar gyfer rhieni. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, digwyddiadau i:

- esbonio agweddau ar y cwricwlwm, gyda phob cydlynydd pwnc yn cyfrannu;
- cyflwyno cynllun darllen newydd, ac esbonio'r dull 'llyfr mawr';
- addysgu gemau darllen y gallai rhieni eu chwarae gyda'u plentyn gartref;
- esbonio agweddau ar fathemateg mewn gweithdy, ac yna dilyn hyn ymlaen gyda rhoi esboniadau gwell ar daflenni gwaith cartref disgyblion;
- esbonio cyllid Rhagori a'r modd y caiff ei ddefnyddio yn yr ysgol; a
- helpu rhieni i wella'u dealltwriaeth o ddysgu'u plant, er enghraifft, trwy grwpiau maethu a sefydlu i ddisgyblion newydd.

27 Mae ysgolion yn adrodd am lwyddiant cymysg wrth gynnal y cyfarfodydd hyn i rieni. Mae lefelau presenoldeb yn amrywio'n fawr, ac ni allai ysgolion gynnig rheswm clir dros hyn. Mae ysgolion yn rhoi cynnig ar drefnu digwyddiadau ar amserau gwahanol o'r diwrnod i godi lefelau presenoldeb, ond mae'r amserau mwyaf llwyddiannus yn dibynnu ar amgylchiadau unigol rhieni'r ysgol.

28 Mae un ysgol yn annog rhieni amharod i helpu gyda darllen, ac mae'r helpwyr hyn yn llenwi ffurflen arfarnu er mwyn helpu'r ysgol i nodi meysydd lle gallai ddarparu hyfforddiant i rieni.

29 Adroddodd pob ysgol eu bod yn teimlo'n hyderus ynglŷn â'r modd y maent yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni am gynnydd eu disgyblion. Yn gyffredinol mae rhieni'n cadarnhau bod adroddiadau blynyddol eu plant wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n hawdd ei deall. Mae trefniadau ar gyfer cyfarfodydd rhieni wedi sefydlu'n dda, ac mae athrawon yn disgwyl i rieni fynychu'r cyfarfodydd lle bydd cynnydd disgyblion unigol yn cael ei drafod gyda rhieni.

30 Mae pob ysgol yn trefnu ymgynghoriadau rhieni o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Dywedodd llawer o rieni bod ysgolion yn ystyrlon o ran trefnu amserau apwyntiadau cyfleus, ac mae ychydig o ysgolion yn anfon holiadur i rieni ynglŷn â hyn. Mae ysgolion yn adrodd bod presenoldeb yn amrywio rhwng 70-95%, ac yn aml rhieni disgyblion hŷn sy'n llai tebygol o fynychu, ac yn enwedig rhieni Blwyddyn 6 yn nhymor yr haf.

31 Mae sawl ysgol wedi datblygu syniadau da i annog rhieni i fod yn bresennol, ac maent yn cynllunio'r defnydd o amser yn ofalus. Mae'r syniadau hyn yn cynnwys:

- cyfuno'r noson rieni gyda chyfarfod blynyddol y llywodraethwyr neu berfformiad gan ddisgyblion;
- defnyddio'r cyfle i arddangos gwaith arall, er enghraifft, i ddangos DVDau o weithgareddau disgyblion yn ystod y flwyddyn; a
- mynd ar drywydd materion a godwyd gan rieni yn ystod y sefydlu yn y cyfarfod rhieni ffurfiol cyntaf ym mis Tachwedd.

32 Mae dwy ysgol yn trefnu i rieni drafod gwaith eu plant yn ffurfiol yn rheolaidd ac yn amlach. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut mae un ohonynt wedi datblygu'i threfniadau.

'Clinig' misol i rieni

Cyd-destun

Ysgol ddinas sydd â 275 o ddisgyblion ar ystâd dai fawr mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol lle mae 50% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Daw'r disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn bennaf. Mae'r ysgol yn cael cyllid Rhagori.

Strategaeth

Mae'r ysgol yn ceisio annog rhieni i gymryd diddordeb yng ngwaith ysgol eu plentyn yn rheolaidd trwy gynyddu'r cyfleoedd ffurfiol i wahodd rhieni i mewn i'r ysgol.

Camau gweithredu

Mae'r ysgol yn cynnal 'clinig' ffurfiol ar ôl ysgol yn fisol ar gyfer pob grŵp blwyddyn, ac mae'n gwahodd rhieni i fynychu. Mae rhieni a disgyblion yn edrych ar y gwaith gyda'i gilydd, ac maent yn gallu trafod cynnydd gyda'r athro, gan gynnwys meysydd cryfder a ffyrdd y gall y disgybl wella.

Canlyniadau

Mae'r ysgol yn gweld bod gwelliant sylweddol yn ansawdd gwaith y disgyblion yn ystod yr wythnos cyn y 'clinig'. Mae disgyblion yn awyddus i wneud yn dda ac i ddangos eu gwaith i'w rhieni. Mae rhieni'n dweud bod y cyfleoedd hyn yn gymorth mawr. Mae'r ysgol yn adrodd bod presenoldeb yn y 'clinigau' yn amrywio, ond mae'r ysgol yn sylwi bod rhieni disgyblion newydd yn arbennig o awyddus i fynychu.

33 Mae'n ofyniad gan bob ysgol bod disgyblion yn gwneud rhywfaint o waith cartref. Ar gyfer disgyblion 5-7 oed, mae hyn yn cynnwys ymarfer darllen a dysgu sillafu fel arfer, tra bod disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn aml yn cael gwaith prosiect ychwanegol i ymchwilio iddo a'i gwblhau ar y penwythnos. Mae'r holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn adrodd bod rhieni'n gefnogol i waith cartref fel arfer, er bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cael llai o help gan rieni wrth iddynt fynd yn hŷn.

34 Mae pob ysgol bron yn darparu cofnod darllen cartref/ysgol neu ddyddiadur i rieni a staff i gofnodi cynnydd a gwneud sylwadau. Mae rhieni'n dweud bod y rhain o gymorth mawr.

Nodi arfer dda

Yn yr ysgolion sydd ag arfer dda o ran cynnwys rhieni'n effeithiol i hyrwyddo a chefnogi safonau cyflawniad gwell, mae'r ysgolion:

- yn cynnig trefniadau hyblyg ar gyfer nosweithiau rhieni trwy gynllunio'r digwyddiad dros dair noswaith, ac maent yn anfon ail lythyr gwahoddiad i rieni nad ydynt yn ymateb i'r cyntaf;
- yn darparu cyfieithwyr i rieni nad ydynt yn siarad Saesneg, ac yn cofnodi cwestiynau ar gyfer cyfieithiad dilynol os bydd angen;
- yn darparu gwybodaeth glir i rieni am eu disgwyliadau o ran y polisi gwaith cartref, ac maent yn gosod gwaith cartref priodol gyda digon o wybodaeth fel bod rhieni'n gwybod sut i helpu;
- yn darparu taflen destunau neu bynciau i rieni yn amlinellu gwaith yr hanner tymor neu'r tymor, ac yn dewis testunau lle gallai rhieni helpu'n hawdd;
- yn recordio straeon ar gyfer rhieni nad ydynt yn siarad Saesneg er mwyn dilyn y llyfr gyda'u plentyn gartref; ac
- yn annog rhieni i fenthyg 'sachau storïau' i'w defnyddio gartref gyda'u plant.

Safonau ymddygiad

35 Ymddygiad yw'r maes lle mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dweud bod cynnwys rhieni wedi cael effaith gadarnhaol.

36 Mae ysgolion a rhieni'n teimlo bod parch y naill at y llall yn ffactor pwysig mewn gwella ymddygiad disgyblion. Mae'r awyrgylch yn gadarnhaol ym mhob ysgol yr ymwelwyd â nhw, ond mewn ychydig o ysgolion, mae'r berthynas ragorol rhwng pawb yn drawiadol iawn. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn barchus, ac mae rhieni'n hyderus ynglŷn â'u pwysigrwydd eu hunain mewn cynorthwyo dysgu. Mae rhieni'n dweud eu bod yn hoffi teimlo bod y gymuned ysgol yn cyd-dynnu.

37 Mewn un ysgol, mae'r pennaeth yn gwirio presenoldeb ac ymddygiad yn ddyddiol, mae'n rhoi negeseuon clir i rieni am ei ddisgwyliadau a bydd yn mynd ar drywydd materion yn bersonol. O ganlyniad, mae o'r farn bod cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol yn well nag mewn ysgolion lleol tebyg.

38 Mae penaethiaid yn chwarae rôl bwysig i bennu'r disgwyliadau ar gyfer ymddygiad disgyblion yn eu hysgolion. Mae rhieni'n dweud bod cael rheolau clir yn eu helpu i reoli'u plant yn well, i gefnogi'r ysgol ac yn y cartref. Mae ysgolion yn sylwi ar welliant yn ymddygiad disgyblion lle mae'r ysgol wedi gweithio'n agos gyda rhieni i'w helpu i wella'u medrau rhianta, er enghraifft, yn y grŵp maethu.

39 Mae newid pennaeth yn newid diwylliant ysgol fel arfer. Er enghraifft, roedd un pennaeth newydd wedi gweithio'n galed i wella ymddygiad heriol disgyblion cyn dechrau'r diwrnod ysgol trwy osod rheolau clir ar gyfer staff a disgyblion, sicrhau bod rhieni'n deall y disgwyliadau a rheoli'r trefniadau newydd yn bersonol. Roedd y gwelliant mewn ymddygiad yn sylweddol. Mae rhieni'n dweud eu bod yn hoffi cael rheolau, ac maent yn hapusach o lawer erbyn hyn ac yn ymddiried mwy yn yr ysgol.

Presenoldeb

40 Yn 2007-2008, y gyfradd bresenoldeb gyfartalog ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru oedd 93.3%. Mae ychydig dros chwarter y disgyblion yn cyfrif am dros hanner cyfanswm nifer yr absenoldebau. Mae cydberthynas rhwng cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfradd absenoliaeth[5]

41 Pan fydd ysgol yn cynllunio ac yn gweithredu polisïau cadarnhaol i gynnwys rhieni, gallant gael effaith sylweddol ar wella lles disgyblion, yn enwedig eu hymddygiad a'u presenoldeb.

42 Mae rhan fwyaf yr ysgolion yn ein sampl yn gwneud ymdrechion gwirioneddol i sicrhau presenoldeb da, a dywedant y gall presenoldeb gwael disgyblion o nifer fach iawn o deuluoedd gael effaith ar y ffigurau cyffredinol.

43 Roedd cyfraddau presenoldeb dros 90% yn gyffredinol gan yr ysgolion y buom ni'n ymweld â nhw. Yr eithriadau oedd ysgolion lle mae teuluoedd yn cymryd gwyliau estynedig i ymweld â pherthnasau dramor. Dim ond un ysgol yr ymwelwyd â hi oedd â chyfraddau presenoldeb o 95% neu well.

44 Lle mae disgyblion yn cymryd gwyliau estynedig yn ystod amser tymor, mae un ysgol yn darparu pecynnau tasgau gwaith cartref priodol i ddisgyblion eu cwblhau. Mae ysgol arall yn gofyn bod disgyblion sy'n mynd ar wyliau yn ystod amser tymor yn anfon cerdyn post i'r ysgol, neu i roi adroddiad llafar o'r gwyliau i'r ysgol yn y gwasanaeth ar ôl iddynt ddod yn ôl.

Nodi arfer dda

Yn yr ysgolion sydd ag arfer dda o ran cynnwys rhieni'n effeithiol i wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion, mae'r ysgolion:

- yn gwobrwyo disgyblion yn briodol am bresenoldeb llawn, ac yn aml bydd hyn ar ffurf cydnabyddiaeth mewn gwasanaeth arbennig y caiff rhieni wahoddiad i ddod iddo;
- yn targedu teuluoedd sydd â chofnod presenoldeb gwael, ac yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Lles Addysg a fydd yn ymweld â chartrefi disgyblion;
- yn sicrhau bod y pennaeth yn esbonio'i ddisgwyliadau yn glir iawn i rieni yn bersonol yn ystod nosweithiau rhieni, ac yn defnyddio dull cyson o gysylltu â rhieni dros y ffôn os bydd disgyblion yn absennol;

[5] 'Absenoliaeth o Ysgolion Cynradd, 2007/08' Datganiad Data Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru Chwefror 2009

- yn gweithredu system pwyntiau, gyda gwobrau am ymddygiad da, sy'n ddealladwy i bawb ac sy'n cael ei chymhwyso'n gyson, ac yn cynnig cyfleoedd i ddathlu llwyddiant, er enghraifft, mewn gwasanaethau y caiff rhieni wahoddiad i ddod iddynt; ac

- yn anfon cardiau post canmol i gartrefi plant drwy'r e-bost neu'n anfon negeseuon testun ac e-byst i rieni i adrodd am ymddygiad da eu plant yn yr ysgol.

Gwella dysgu oedolion

45 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae cymorth a hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer dysgu oedolion. Mae hyn yn cynnwys cynnig hyfforddiant personol i rieni unigol i wella'u haddysg a'u cymwysterau eu hunain. Yn ogystal â helpu'r oedolion dan sylw, mae hyn yn cael effaith ar farn eu plant am bwysigrwydd dysgu, a gall gymell plant i ddod yn ddysgwyr gydol oes.

46 Gall dysgu fel teulu, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, godi cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant a rhieni. Mae Rhaglenni Teulu'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru yn cynnwys rhaglenni a gweithdai sy'n cael eu cynnal ym mhob awdurdod addysg lleol i helpu rhieni i wella'u medrau sylfaenol eu hunain a'u cael yn ôl i mewn i ddysgu, wrth helpu'u plant. Mae rhaglenni teulu hefyd yn rhoi cyngor i rieni am ddilyniant i addysg bellach.

47 Mae sawl ysgol yn cynnig cyrsiau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i rieni, ac maent yn boblogaidd. Roedd ychydig o ysgolion wedi cynnig dosbarthiadau Cymraeg i oedolion, ond cyfyngedig oedd y galw am y rhain.

48 Fe wnaeth yr arolwg nodi ychydig o rieni nad oedd ganddynt fawr o gymwysterau, neu ddim cymwysterau, cyn i'w plentyn ymuno â'r ysgol, ond eu bod drwy eu cysylltiad â'r ysgol wedi hyrwyddo'u haddysg eu hunain. Er enghraifft, fe wnaeth rhiant a oedd wedi dechrau fel mam yn y grŵp maethu symud ymlaen i ddarparu cymorth gwirfoddol yn yr ysgol, ac yna mynd ymlaen i ennill cymwysterau CGCC mewn gofal plant mewn cyflogaeth am dâl. O ganlyniad, mae wedi adrodd ei bod wedi dod yn batrwm ymddwyn gwell o ran hyrwyddo buddion addysg i'w phlentyn.

Cynnwys mewn grwpiau sefydlu a maethu

49 Adroddir bod sefydlu yn y cyfnod meithrin yn arbennig o bwysig i rieni newydd i'r ysgol, yn enwedig os oes crèche yn cael ei ddarparu ar gyfer plant iau. Mewn arfer dda, dylai ysgolion ddarparu pecynnau o wybodaeth ddefnyddiol, dangos rhieni i'r ystafell ddosbarth a chynnig cyfleoedd da iddynt gyfarfod â'r staff. Dywedodd rhieni ei bod yn bwysig i ysgolion wneud yn siwr bod trefniadau sefydlu'n cael eu rhoi ar waith i rieni newydd pa bryd bynnag y bydd disgyblion newydd yn ymuno â'r flwyddyn, ac nid ar y brif adeg derbyn disgyblion yn unig.

50 Yn y tair ysgol yr ymwelwyd â nhw, fe wnaethom gyfarfod â rhieni disgyblion mewn grwpiau maethu. Mae'r ysgolion hyn yn nodi nifer fach o ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol a datblygiadol, ac maent yn cynnig cyfleoedd dysgu arbennig o fewn grŵp bach. Fel rhan o'r rhaglen faethu, caiff rhieni eu hannog i fod yn rhan o

weithgareddau'r grŵp er mwyn datblygu'u medrau rhianta. Er enghraifft, byddai'r rhieni hyn yn ymuno â'r plant ar gyfer byrbryd bore, dysgu sut i chwarae gemau gyda'u plant a gweld y modd y mae staff yr ysgol yn defnyddio dull cyson o reoli ymddygiad. Mewn un ysgol, dywedodd rhieni'r grŵp maethu eu bod wedi mwynhau dysgu gweithgareddau llythrennedd ymarferol yn arbennig, er enghraifft, ysgrifennu 'j' mewn jeli.

51 Yn 2006, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglen ar gyfer 'Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru' (Rhagori) trwy ddarparu cyllid i dargedu'r cysylltiadau rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion yng Nghymru. Dywedodd dwy ysgol bod y cyllid hwn wedi bod yn hanfodol i weithredu'u grwpiau maethu.

Nodi arfer dda

Yn yr ysgolion ag arfer dda o ran cynnwys rhieni'n effeithiol lle maent yn gweithredu grwpiau maethu, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- mae'r ysgolion yn meithrin perthynas agos rhwng y staff a rhieni yn y grwpiau maethu, ac mae hyn yn rhoi hyder i rieni;
- mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei gael gan yr ysgol;
- mae rhieni'n gwybod y gallant ofyn am gyngor gan staff y grŵp maethu ynglŷn â sut i reoli ymddygiad eu plentyn, ac maent yn gweld buddion y gwelliant yn ymddygiad eu plentyn yn yr ysgol a gartref;
- mae rhieni'n gadarnhaol iawn ynglŷn â threfniadau'r ysgol, ac nid ydynt yn teimlo bod unrhyw stigma o ganlyniad i gynnwys eu plentyn yn y grŵp maethu; ac
- mae'r ysgol yn sylwi ar welliant cyffredinol yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion maethu y mae eu rhieni wedi'u cynnwys hefyd.

52 Nid yw'r un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi darparu prosiectau penodol i rieni a'u plant i ddysgu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, mae ysgolion yn Birmingham ac yn Wakefield wedi rhoi'r prosiect 'Inspire' ar brawf, lle gwnaeth rhiant (neu daid/nain) a phlentyn ddatblygu prosiect gyda'i gilydd yn y dosbarth am wythnos. Mae ysgolion wedi datblygu cynlluniau gwaith yn ymwneud â themâu a oedd yn cynnwys 'goroesi' a 'llongddryllio'. Bu'r wythnosau prosiect hyn yn boblogaidd iawn gyda phawb, ac fe wnaethant gymell rhieni i gymryd mwy o ran yn nysgu eu plentyn.

Graddau cynnwys rhieni

53 Yn y sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd cynrychiolwyr y rhieni[6] y gwnaethom gyfarfod â nhw yn ferched, yn wyn ac yn Brydeinwyr yn bennaf. Mewn llawer o achosion, roedd y rhieni hyn yn adlewyrchu ethnigrwydd y disgyblion a oedd yn dod i mewn i'r ysgol, ond at ei gilydd, roedd tan-gynrychiolaeth o rieni o grwpiau

[6] Fe wnaeth tîm yr arolwg gyfweld grwpiau gwahanol o gynrychiolwyr rhieni ym mhob ysgol yr ymwelwyd â nhw; nid oedd pob un ohonynt yn rhieni lywodraethwyr.

ethnig lleiafrifol yn y sampl. Yr eithriad oedd ysgol lle nad oedd 84% o'r disgyblion yn siarad Saesneg na Chymraeg fel iaith gyntaf. Mae gan yr ysgol hon gorff llywodraethol sy'n cynnwys saith rhiant o grwpiau ethnig lleiafrifol, ac maent yn cynrychioli ethnigrwydd cymuned yr ysgol i raddau helaeth.

54 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw bron, mae rhieni'n adrodd nad ydynt yn hoffi bod ar bwyllgorau nac yn hoffi mynychu cyfarfodydd ffurfiol, ond maent yn barod i helpu, ac yn helpu, gyda thasgau ymarferol.

55 Adroddodd pob ysgol yn yr arolwg bod mamau'n fwy tebygol o ymwneud â'r ysgol na thadau. Mae'r prif resymau a roddwyd am hyn yn cynnwys ymrwymiadau cyflogaeth tadau, teuluoedd mam sengl, materion diwylliannol ac mewn ychydig o achosion, diffyg diddordeb. Ni wnaeth yr arolwg nodi unrhyw enghreifftiau o arfer arloesol i annog cyfranogiad mwy gan dadau.

56 Mae ychydig o ysgolion yn gweithio'n galed i annog mamau nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg i ddod yn gysylltiedig a gwella'u medrau iaith eu hunain. Er enghraifft, mae un ysgol yn targedu'r rhieni hyn i fynychu boreau coffi rheolaidd ac mae'n darparu gwasanaeth cyfieithu, tra bod ysgol arall yn cynnwys rhieni mewn prosiectau grŵp ymarferol, fel gwneud 'sachau storïau'.

57 Fe wnaeth yr ysgolion hynny sydd â hanes llwyddiannus o gynnwys rhieni bwysleisio pwysigrwydd targedu rhwydweithiau teulu estynedig, a theidiau a neiniau yn arbennig. Yn yr arfer orau, mae teidiau a neiniau'n cael eu hannog i ddod yn gysylltiedig bob amser, ac yn eu tro, gallant hwythau annog y rhieni, a'r tadau yn benodol, i chwarae rhan gryfach yn addysg eu plant. Mae dylanwad hierarchaeth y teulu yn cael effaith nodedig mewn ysgol sydd â nifer fawr o ddisgyblion o deuluoedd sy'n deithwyr, ac mae'r ysgol hon wedi gweithio'n galed i feithrin perthynas gydag aelodau allweddol teuluoedd.

58 Mae un ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned wedi ymestyn ei rhwydwaith y tu hwnt i aelodau teulu, er mwyn annog pobl eraill yn y gymuned i weld yr ysgol fel canolfan bywyd lleol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi ennill parch mawr ymhlith rhieni ac mae wedi cael cyhoeddusrwydd cadarnhaol. Er enghraifft, mae rhieni a phobl leol eraill wedi bod yn gysylltiedig â datblygu amgylchedd chwarae awyr agored yr ysgol, ac mae'r ysgol yn croesawu'u presenoldeb mewn gweithgareddau cymdeithasol fel sesiynau 'bingo' a chinio Nadolig.

59 Canfyddiad mwy cyffredinol yw bod rhieni plant iau yn fwy tebygol o ymwneud â'r ysgol, ond eu bod yn colli diddordeb yn raddol wrth i'w plentyn fynd yn hŷn. Roedd y rhesymau a nodwyd am y diffyg cysylltiad ag ysgolion yn cynnwys y canlynol ymhlith rhieni:

- dyheadau isel iddynt hwy eu hunain a'u plant;
- medrau allweddol a medrau sylfaenol gwael sy'n creu rhwystrau personol i'w dysgu eu hunain;
- profiad negyddol y nhw eu hunain o'r ysgol, sy'n arwain at ddadrithiad, hunan-barch isel ac ofni'r ysgol;

- anallu i helpu, er enghraifft, gyda gwaith cartref, wrth i blant fynd yn hŷn ac wrth i'r gwaith fynd yn anoddach; a

- gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol.

Y polisi 'drws agored'

60 At ei gilydd, mae rhieni'n dweud eu bod yn teimlo bod croeso iddynt mewn ysgolion. Adroddodd pob ysgol yr ymwelom ni â nhw bod ganddynt bolisi 'drws agored', ond mae hyn yn golygu pethau gwahanol mewn ysgolion gwahanol.

61 Mae'r polisïau 'drws agored' yn amrywio gryn dipyn. Yn yr arfer orau, mae'r pennaeth a'r staff yn creu awyrgylch o ymddiriedaeth, ac yn canfod ffyrdd i sicrhau bod rhieni'n teimlo bod croeso mawr iddynt ddod i'r ysgol unrhyw bryd. Mewn ysgolion eraill, mae trefniadau'n fwy ffurfiol ac mae'r 'drws agored' yn golygu bod y pennaeth ar gael i rieni i wneud apwyntiadau i'w weld/gweld.

62 Dywedodd un pennaeth ei fod o'r farn bod 'unrhyw beth sy'n cael rhieni i mewn i ysgol i'w groesawu'. Soniodd llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw am bwysigrwydd codi parch lle mae'r gymuned gyfan yn dioddef o hunan-barch isel iawn, oherwydd anawsterau economaidd gymdeithasol, er enghraifft.

63 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd yr enghreifftiau gorau o arfer effeithiol o ganlyniad i bolisïau 'drws agored' mewn ysgolion fel a ganlyn:

- lle mae proffil uchel gan y pennaeth a'r staff ar yr iard chwarae ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, a lle gwnânt bwynt o siarad â rhieni'n anffurfiol a'u hadnabod yn bersonol;

- lle caiff rhieni disgyblion y Cyfnod Sylfaen eu hannog i dreulio 30 munud cyntaf pob diwrnod gweithio yn yr ystafell ddosbarth er mwyn cael dealltwriaeth o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud, a sut maent yn dysgu, bob dydd;

- lle mae cyfieithydd yn gweithio yn swyddfa'r ysgol, ac mae ar gael bob dydd o 8.40 y bore i helpu rhieni i ddeall gohebiaeth a gweithdrefnau'r ysgol; a

- lle mae cyfleoedd anffurfiol, sy'n golygu rhannu bwyd yn aml, lle mae rhieni'n teimlo'n esmwyth i gyfarfod â staff a'i gilydd mewn sefyllfa nad yw rhieni'n teimlo ei bod yn fygythiol, er enghraifft boreau coffi lle bydd rhieni'n cyfarfod i wneud gwisgoedd ar gyfer cynyrchiadau ysgol.

64 Adroddodd un ysgol bod y polisi 'drws agored' yn cymryd amser i wreiddio, ond bod y dewis arall, sef 'cadw rhieni allan' yn creu diffyg ymddiriedaeth ar bob ochr.

Llywodraethu

65 Adroddodd pob ysgol yr ymwelwyd â nhw mai ychydig iawn o anhawster y maent yn ei gael i ddod o hyd i rieni gwirfoddolwyr i wasanaethu fel llywodraethwyr, er mai prin y bydd angen i ysgolion drefnu etholiad gan mai nifer fach o rieni sy'n dod ymlaen. Adroddodd pob un o'r ysgolion hyn bod cysylltiadau anffurfiol da ganddynt â rhieni, ac maent yn gwybod pwy sy'n debygol o fod â diddordeb. Mae penaethiaid yn dweud eu bod fel arfer yn ysgrifennu llythyrau cyfeillgar neu weithiau'n mynd at riant unigol.

66 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae rhan fwyaf y rhieni lywodraethwyr mewn cyflogaeth, llawer ohonynt yn yr ysgol. Disgrifir pob un ohonynt fel pobl gefnogol sy'n ymroi'n llawn, ac maent yn uchel eu parch ymhlith staff a rhieni eraill.

67 Mae rhieni bron bob amser yn dod ymlaen ar ôl gwasanaethu fel aelod o gymdeithas rhieni athrawon neu grŵp tebyg o'r blaen, neu wedi gweithio fel gwirfoddolwr ac yna wedi cael eu cyflogi gan yr ysgol fel cynorthwyydd cymorth. Dywedodd rhieni mewn llawer o ysgolion er eu bod yn awyddus i fod yn rhan o fywyd yr ysgol, mae rôl y rhiant lywodraethwr yn codi arswyd arnynt. Mae ychydig o ysgolion yn adrodd nad yw rhieni'n dymuno chwarae rôl mor ffurfiol, ond eu bod yn hapus i gefnogi mentrau ymarferol.

68 Mae trefniadau gan y rhan fwyaf o ysgolion i gysylltu llywodraethwyr â maes cwricwlwm. Mae'r cyswllt hwn yn amrywio gryn dipyn. Yn yr arfer orau, mae rhieni lywodraethwyr yn gyfarwydd iawn â'r cwricwlwm, maent yn arsylwi gwersi, maent yn cael adroddiadau blynyddol ar bynciau, maent yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chydlynwyr pwnc ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r modd y mae eu hysgol yn gweithredu.

69 Mae rhieni lywodraethwyr yn teimlo y gallant fod yn 'llygaid a chlustiau' ysgol, a bod cyfathrebu rheolaidd rhwng llywodraethwyr, rhieni a staff yn bwysig i greu cymuned ddysgu effeithiol. Mae rhieni'n adrodd mai anaml y byddant yn codi materion drwy rieni lywodraethwyr, er nad ydynt yn ofni gwneud hynny, a materion bach ydynt fel arfer. Ym mhob achos bron, mae rhieni'n teimlo'n hyderus i siarad â staff ysgol. Dim ond un ysgol roddodd enghraifft o fater a gafodd ei godi trwy riant lywodraethwr a agorodd ddadl ddefnyddiol, lle'r oedd rhieni wedi bod yn ansicr ynghylch polisi gwaith cartref yr ysgol.

70 Mewn un ysgol, lle nad yw 86% o'r disgyblion yn siarad Saesneg gartref, mae rhieni lywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig i helpu rhieni i ddeall y cwricwlwm fel y gallant helpu'u plant. Mae'r llywodraethwyr hyn wedi chwarae rhan i berswadio rhieni i gefnogi mentrau'r ysgol, er enghraifft, sicrhau bod yr holl ddisgyblion o ddiwylliannau gwahanol yn gwisgo gwisg briodol ar gyfer addysg gorfforol.

71 Mae dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn trefnu digwyddiadau arbennig i annog rhieni i fynychu cyfarfod blynyddol y llywodraethwyr a chyflwyno'r adroddiad. Mae'r ddwy ysgol yn gweld hyn fel cyfle i gyfuno'r cyflwyniad gyda pherfformiad gan ddisgyblion, cyfle i rieni gyfarfod â staff, gweld gwaith disgyblion ac ymweld ag ystafelloedd dosbarth neu ei wneud yn ddigwyddiad mwy cymdeithasol, er enghraifft, parti gwin a chaws. Mae presenoldeb rhieni yn y cyflwyniad wedi gwella yn y ddwy ysgol o ganlyniad i hyn.

72 Mae un ysgol yn cynnal diwrnod rhanddeiliaid blynyddol ar gyfer llywodraethwyr, staff a rhieni nad yw'r pennaeth yn ei fynychu. Mae presenoldeb da yn y sesiwn, ac mae'n darparu adborth defnyddiol i gynllun datblygu'r ysgol; er enghraifft, ar un achlysur, nododd rhieni angen i wella'r iard chwarae a darparu cyfarpar chwarae. Mae rhieni lywodraethwyr yn teimlo bod y math hwn o ddigwyddiad yn ddefnyddiol, a byddent yn dymuno i fwy o rieni fynychu.

73 Menter gadarnhaol arall yw un lle mae cadeirydd y llywodraethwyr yn anfon llythyrau at rieni gyda nodwedd bersonol, er enghraifft "Rwy'n rhiant i xx yn B2 a xx yn B4". Adroddodd rhieni eu bod yn hoffi'r agwedd hon.

Nodi arfer dda

Mae ysgolion sy'n cynnwys rhieni yn tueddu'n gyfan gwbl i gael rhieni lywodraethwyr sy'n:

- bobl allweddol yn rhediad cyffredinol yr ysgol, gyda rôl gydnabyddedig yn esbonio ac yn dehongli polisïau a mentrau i rieni, ac yn cyfieithu mewn cyfarfodydd lle bo angen;
- anfon holiaduron rheolaidd at rieni, yn dadansoddi'r wybodaeth yn fanwl ac yn dilyn hyn gydag ymateb helaeth i bob pwynt a godwyd i ddweud sut y bydd yr ysgol yn gweithredu ar y materion a godwyd;
- yn gweithio gyda'r ysgol i annog rhieni i fynychu'r cyfarfod blynyddol, ac i ddysgu mwy am waith yr ysgol trwy gynllunio gweithgareddau sy'n cynnwys disgyblion yn yr un digwyddiad; ac
- yn dangos darpar rieni o amgylch yr ysgol ar ddiwrnod agored.

Datblygu adnoddau a darpariaeth

74 Y tri maes allweddol adnoddau a darpariaeth y mae rhieni'n ymwneud â nhw'n aml yw:

- cymorth yn yr ystafell ddosbarth;
- codi arian; a
- gweithgareddau allgyrsiol.

75 Mae'r gweithgareddau hyn yn annog rhieni i ddod i adnabod ysgol eu plentyn, i ddatblygu perthynas dda gyda staff ac i wella'r ddarpariaeth adnoddau ysgol ar gyfer eu plant.

76 Mae lefel y cymorth gwirfoddol mewn ystafelloedd dosbarth yn amrywio yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mae ychydig o'r ysgolion hyn yn gweld cynnwys rhieni fel elfen hanfodol i godi safonau, ac maent yn cynnwys rhieni wirfoddolwyr ac oedolion eraill yn y gymuned mewn amrywiaeth o fentrau. Mae rhieni'n awyddus i fod yn gefnogol yn gyffredinol. Mae pob ysgol yn dod o hyd i ddigon o wirfoddolwyr parod i gynorthwyo ar deithiau ysgol a digwyddiadau chwaraeon.

77 Mae gan bron pob ysgol yr ymwelwyd â nhw rhyw fath o gymdeithas rhieni athrawon (CRhA) neu gymdeithas cyfeillion. Yn gyffredinol, y rhain sy'n gyfrifol am drefnu digwyddiadau codi arian a digwyddiadau cymdeithasol, er enghraifft, disgos, barbiciws a theithiau â chymorthdal. Un ffactor pwysig yw bod angen i rieni deimlo'n hyderus i gynnig syniadau. Mae rhieni'n dweud eu bod yn hoffi dod i adnabod y staff yn well, a'u bod yn teimlo bod digwyddiadau'n cynnig cyfleoedd da ar gyfer adeiladu tîm yn dda.

78 Bydd digwyddiadau wedi'u trefnu yn gweithio orau pan fydd ysgolion yn creu diwylliant lle mae rhieni eisiau cael eu cynnwys, trwy drefnu digwyddiadau llawn dychymyg y mae rhieni'n awyddus i'w cefnogi. Y canlyniad yw bod yr ysgolion yn codi arian yn llwyddiannus fel sgil-gynnyrch bron. Mae un ysgol yn teimlo bod digwyddiadau cymunedol yn boblogaidd iawn ac mae'n trefnu nosweithiau bingo llwyddiannus ar gyfer teuluoedd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae ysgol arall yn esbonio'n glir i rieni bod rhaid i weithgareddau codi arian fod â'r plant yn ganolog iddynt, ac mae'r rhain hefyd yn cael cefnogaeth dda ac yn llawn mor effeithiol.

79 Mae digwyddiadau llwyddiannus hefyd wedi cynnwys sioeau ffilmiau, nosweithiau'r 70au a'r 80au a sgitls. Trefnodd un ysgol sioe boblogaidd 'Stars in their Eyes' a oedd yn cynnwys rhieni, staff, disgyblion a gyrwyr tacsis yr ysgol hyd yn oed, a chodwyd swm mawr o arian i'r ysgol.

80 Mae'r grwpiau hyn hefyd yn helpu'r ysgol drwy ofyn am gyllid gan elusennau a ffynonellau eraill. Er enghraifft, cafodd un CRhA ysgol gyllid gan y Cyngor Cymuned i wella'r iard chwarae. Mae rhieni'n dweud eu bod yn hoffi gwybod ymhle mae'r arian yn cael ei wario.

81 Lle mae ysgolion yn weithgar yn gofyn am gymorth, y rhain hefyd yw'r rhai sy'n tueddu disgrifio cymorth rhieni yn 'ardderchog', ac mae tystiolaeth weledol glir o'r effaith, er enghraifft mewn llyfrgelloedd ysgol deniadol, gerddi ac ystafelloedd TG.

82 Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr ag ysgolion lle gadewir i rieni drefnu digwyddiadau fel ffair ysgol gyda fawr o frwdfrydedd gan staff yr ysgol.

83 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut y datblygodd CRhA un ysgol brosiect sydd wedi ennill gwobr, sef prosiect a gynhwysodd cymuned gyfan yr ysgol a chodi arian ar yr un pryd.

Y prosiect hadau

Cyd-destun

Trefnwyd y prosiect hwn gan ysgol fabanod a meithrin fach mewn tref yn y Canolbarth. Mae amrywiaeth o ddisgyblion yn dod i mewn i'r ysgol o blith teuluoedd lleol a phoblogaeth y fyddin sydd heb gartref parhaol, gan gynnwys teuluoedd y Fyddin Brydeinig a Chatrawd y Ghurkhas.

Strategaeth

Dyfeisiodd Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol gynllun i godi arian, 'Y prosiect hadau', a fyddai'n cynnwys pob disgybl a'i deulu. Un o'r nodau oedd sicrhau y byddai teuluoedd nad oeddent yn siarad Saesneg yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

Camau gweithredu

Rhoddwyd £1 i bob disgybl yn yr ysgol. Eu her oedd cyflawni tasg bleserus a fyddai'n galluogi'r arian i 'dyfu'. Roedd enghreifftiau o weithgareddau a gyflawnwyd gan y teuluoedd yn cynnwys defnyddio'r arian i brynu bwcedi a sbwnjys a chodi tâl am olchi ceir, a phrynu cynhwysion i wneud cacennau i'w gwerthu.

Canlyniad

Ymatebodd teuluoedd yn dda iawn i'r her. Roedd y syniad yn boblogaidd, ac roedd yn cynnwys cymuned yr ysgol gyfan yn dda. Sylwodd yr ysgol ar fuddion y bartneriaeth gryfach rhwng pawb, ac fe gafodd yr arian a godwyd hefyd. Enillodd y Gymdeithas Cyfeillion wobr genedlaethol Seren Aur i CRhA am eu gwaith, a chyflwynwyd y wobr iddynt ym Mhalas Buckingham.

84 Lle mae arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn gweithgareddau allgyrsiol, mae rhieni'n dweud bod yr ysgol yn brysur ac yn hwyl, ac maent yn teimlo'n esmwyth am eu bod yn gwybod bod eu cyfranogiad yn cael ei werthfawrogi.

85 Mae rhieni'n gwerthfawrogi cyfleoedd i weithio ochr yn ochr â staff i wneud gwelliannau. Er enghraifft, mewn mwy nag un ysgol, fe wnaeth y pennaeth a grŵp o rieni addurno rhan o adeilad yr ysgol yn ystod gwyliau'r ysgol. Er y gall hyn ymddangos fel rhywbeth tu hwnt i rôl ddisgwyliedig y pennaeth, cafodd cysylltiad agos y rheiny dan sylw effaith ar atgyfnerthu'r berthynas dda sy'n bodoli'n barod rhwng oedolion sy'n ymwneud â'r ysgol.

86 Mae rhieni'n ymateb yn dda i wahoddiadau i helpu gyda gweithgareddau ymarferol a chlybiau i ddisgyblion. Er enghraifft, mae rhieni'n cael eu cynnwys yn aml mewn prosiectau garddio i blannu bylbiau a choed. Adroddodd ysgolion mae amrywiol yw eu llwyddiant o ran cynnal diddordeb rhieni ar ôl i'r brwdfrydedd cychwynnol bylu, ac mewn ychydig o achosion, mae'r cymorth wedi peidio ar ôl y cyfnod blodeuo cyntaf.

87 Mae rhieni'n cynnig cymorth da iawn i glybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol, ac mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan staff a theuluoedd fel ei gilydd. Hefyd, mae rhieni'n gefnogol iawn fel arfer o ran darparu help gyda gwisgoedd, teithiau a darparu cludiant i ddigwyddiadau chwaraeon.

88 Mae rhieni'n hoffi mynychu gwasanaethau ysgol a dosbarthiadau, a chanfuom fod y cyfleoedd i rieni fod yn rhan o wasanaethau yn amrywio gryn dipyn o ysgol i ysgol.

89 Mae rhieni'n mynychu digwyddiadau ysgol fel cyngherddau a sioeau yn dda iawn fel arfer. Mae un ysgol yn defnyddio rhiant fel 'rheolwr adloniant', ac mae'n mynd ati'n frwdfrydig i gynnwys rhieni, mamau a thadau, i gefnogi cynyrchiadau ysgol, er enghraifft, drwy wneud y gwaith coluro ar gyfer sioeau ysgol. Adeg yr ymweliadau â'r ysgolion, roedd rhieni mewn llawer o ysgolion yn arbennig o gyffrous ynglŷn â'r cynyrchiadau diwedd tymor a oedd ar fin eu cynnal, a threfnodd un ysgol i deuluoedd ganu carolau ar iard yr ysgol.

90 Mae ychydig o ysgolion yn darparu gweithgareddau defnyddiol i rieni, ac mae pwrpas penodol i'r rhain hefyd, sef eu hannog i chwarae rhan fwy ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, cafodd rhieni mewn dwy ysgol sydd â chanran uchel o deuluoedd o grwpiau ethnig lleiafrifol gyfleoedd i ymweld â'r 'bws goginio' i ddysgu mwy am fentrau 'bwyta'n iach'.

91 Mae mentrau llwyddiannus eraill yr adroddwyd amdanynt yn cynnwys:

- gweithgareddau sydd â ffocws cymunedol iddynt, fel Gorymdeithiau Bonedi Pasg neu Lusernau, neu'r ysgol a drefnodd ddigwyddiad dramatig i anfon ei disgyblion o'r dref ar y trên fel 'faciwîs'; a

- diwrnod gyrfaoedd lle daw rhieni i mewn i'r ysgol i siarad â disgyblion am eu gwaith.

Nodi arfer dda

Yn yr ysgolion sy'n cynnwys rhieni'n dda:

- mae rhieni'n gwrando ar grwpiau darllen dan arweiniad, mae taid/nain sydd â phrofiad priodol yn arwain sesiynau cerddoriaeth yr ysgol, ac mae disgyblion yn ymarfer siarad Cymraeg gyda phobl leol sydd wedi ymddeol;

- mae crèche mewn canolfan gymunedol gerllaw ysgol yn ei gwneud hi'n haws i rieni â babanod i helpu yn yr ysgol; ac

- mae'r ysgol yn trefnu wythnosau gweithgareddau â thema, er enghraifft, ar fwyta'n iach, wythnos ryngwladol neu wythnos werdd. Mae disgyblion yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau cysylltiedig yn ystod yr wythnos, ac mae rhieni'n cael eu hannog i gefnogi'r gwaith prosiect gartref ac i ddarparu arteffactau. Mae'r wythnos yn gorffen gyda diwrnod agored y caiff rhieni eu gwahodd i'w fynychu, ac i weld sut mae disgyblion wedi datblygu'r testun.

Diwallu anghenion rhieni

92 Mae llawer o ysgolion yn adrodd bod rhai rhieni'n ofni amgylchedd ysgol. Gall fod hanes o fethiant personol yn yr ysgol gan rai ohonynt. Gall hyn greu rhwystr iddynt gyfranogi, a rhwystr i'w gallu i gynorthwyo'u plant hefyd. Dywedodd un pennaeth bod hunan-barch rhieni'n codi pan fyddant yn gallu cyfrannu at fywyd ysgol. Mae'r ysgol hon yn sylwi ar wahaniaeth anferthol yn agwedd rhieni sy'n mynychu gweithdai, am eu bod yn dod yn fwy gwybodus a chefnogol.

93 Mae rhieni'n hoffi i'r pennaeth a staff fod yn weledol iawn ac ar gael iddynt. Yn yr arfer orau, maent yn disgrifio'r ysgol 'fel teulu'. Dywed rhieni eu bod yn hoffi dull personol o weithio, ac maent yn gwerthfawrogi'r ysgol yn cysylltu fel y gallant helpu i ddatrys anawsterau gyda'u plant. Mae rhieni mewn ychydig o ysgolion yn teimlo bod yr ysgol yn creu cyfleoedd da iddynt ddod i adnabod athro eu plentyn yn gynnar yn y flwyddyn ysgol, ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â nhw wedyn.

94 Mae pob rhiant yn hoffi cael gwybodaeth yn gyson, ac maent yn gwerthfawrogi pan fydd yr ysgol yn gwneud ymdrech dda i roi gwybodaeth iddynt. Mae ysgolion yn gwneud hyn mewn ffyrdd gwahanol. I rai ysgolion, mae cyfarfodydd a gweithdai yn cynnig cyfleoedd da. Mae'n well gan ysgolion eraill ddefnyddio cylchlythyrau, anfon negeseuon testun ac e-byst.

95 Mae rhieni'n hoffi cylchlythyrau sy'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae dosbarthiadau eu plant yn ei wneud, ac sy'n cynnwys cyfraniadau gan ddisgyblion yn ogystal â gwybodaeth fwy cyffredinol. Mae pob ysgol bron yn ceisio cynhyrchu gohebiaeth mewn arddull syml i'r darllenydd.

96 Fe ddaeth un ysgol sydd â nifer fawr o ddisgyblion Mwslimaidd i wybod nad oedd hawl gan y disgyblion i fwyta'r cig a oedd yn cael ei weini yn yr ysgol oherwydd eu credoau crefyddol, ac roedd eu rhieni'n bryderus iawn. Fe wnaeth y rhieni hyn weithio gyda'r ysgol i ddod o hyd i ateb i'r mater, ac o ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu prydau derbyniol erbyn hyn, mae'n cynnig sesiynau blasu i ddisgyblion eraill, ac mae gan eu rhieni fwy o hyder ynglŷn â pharodrwydd yr ysgol i fynd i'r afael â materion anodd.

97 Mae rhieni'n adrodd nad yw'r ysgolion yn gwneud gystal o ran sicrhau bod rhieni'n llawn ymwybodol o drefniadau cyflenwi dros staff absennol, er enghraifft, yn ystod cyfnod mamolaeth. Gall rhieni a disgyblion deimlo'n arbennig o anesmwyth yn yr amgylchiadau hyn, ac maent yn fwy tebygol o fod yn gefnogol i'r ysgol os ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd.

98 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn adrodd eu bod yn cynnwys rhieni'n dda, ond mae barnau felly'n anodd eu profi. Un ffordd yw defnyddio holiaduron yn effeithiol. Mae ysgolion sy'n gwneud hyn yn dda yn dyfeisio cwestiynau sy'n benodol i'w hamgylchiadau penodol nhw. Mewn un ysgol, roedd cyngor yr ysgol wedi dylunio a dosbarthu holiadur i ofyn am farnau rhieni am sut y byddent yn hoffi cael eu cynnwys. Roedd yr ymatebion wedi rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r ysgol am raddau mynediad rhieni i gyfrifiadur a'r rhyngrwyd, ond datgelodd hefyd fod 33% o ymatebwyr wedi dweud nad oeddent eisiau ymwneud mwy fyth â'r ysgol.

99 Anfonodd ysgol arall holiadur at rieni ynglŷn â'i pholisi bwlio. Dysgodd yr ysgol, er enghraifft, er bod 62% o rieni'n gwybod bod polisi gan yr ysgol i fynd i'r afael â bwlio, dim ond 19% o rieni oedd yn gwybod beth oedd yr ysgol yn ei wneud. O ganlyniad, dywedodd 86% o rieni eu bod eisiau mwy o wybodaeth.

100 Mae nifer o ysgolion wedi gwneud newidiadau ffisegol i amgylchedd yr ysgol i'w gwneud yn fwy hygyrch i rieni. Er enghraifft, os yw swyddfeydd i fyny'r grisiau, mae rhieni'n llai tebygol o ymweld â'r pennaeth, yn enwedig os oes plant bach ganddynt ar y pryd. Gall gwella'r addurn wneud adeiladau ysgol yn fwy deniadol i rieni a disgyblion fel ei gilydd.

101 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n rhoi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar brawf mewn ysgolion. Rhan o'r fenter hon yw cryfhau'r cysylltiadau rhwng rhieni ac ysgolion. Mae'r gwaith hwn yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynllun peilot ar gyfnod cynnar, ac nid yw wedi'i arfarnu eto.

102 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu gwybodaeth am safonau a lles disgyblion ar lefel genedlaethol, ond nid yw hwn ar ffurf i rieni ei ddarllen yn hawdd bob tro. Nid yw hyn yn diwallu anghenion rhieni'n ddigon da pan fyddant eisiau cael eu cynnwys mwy â gweithio ag ysgolion i osod targedau realistig ar gyfer eu plant.

Atodiad 1

Grwpiau maethu

Mae grwpiau maethu yn cynnwys nifer fach o blant, o ysgolion babanod neu ysgolion cynradd, rhwng pedair a saith oed. Byddai grŵp nodweddiadol yn cynnwys rhwng 6 a 12 o blant gydag anghenion arbennig canfyddedig a adlewyrchir mewn ymddygiad ansicr neu feichus yn y lleoliad ysgol. Mae anghenion cymdeithasol ac emosiynol sylweddol nad ydynt yn cael eu diwallu yn un nodwedd sy'n cael ei rhannu ganddynt, ynghyd â gofyniad am fwy o amser a sylw oedolyn na hynny y gellir ei ddarparu'n hawdd mewn dosbarth cyffredin.

Mae cysyniad cyffredinol grwpiau maethu, yn seiliedig ar fodelau clir datblygiad plentyn gan gynnwys Theori Ymlyniad, wedi bodoli er y 1970au, ond mae grwpiau wedi dod yn fwyfwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf, o ystyried eu heffeithiolrwydd amlwg yn hyrwyddo cynnwys plant sy'n dangos anghenion cymdeithasol ac ymddygiad yn y brif ffrwd.

Bydd y plant a ddewisir yn cofrestru gyda'u dosbarth prif ffrwd bob bore, ac wedyn yn ymuno â phlant eraill yn y grŵp maethu, a fydd yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol ond a fydd yn cynnwys elfennau ychwanegol hefyd gyda'r bwriad o leihau'r ymddygiad negyddol a gwella medrau cymdeithasol, gan alluogi'r plant i fanteisio'n llawn ar eu profiad ysgol. Byddant yn ailymuno â'u dosbarth ar gyfer gweithgareddau penodol fel addysg gorfforol neu gemau a theithiau dosbarth; a bydd cyfranogiad yn y grŵp maethu yn ymestyn i unrhyw beth rhwng chwech a deunaw mis.

M.J.Connor
Seicolegydd Addysgol Siartredig

Cyfeiriadau

Adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb APADGOS 2008

Arolwg Parental Involvement in Children's Education a gynhaliwyd gan BMRB ar gyfer yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd 2008

Brwydro yn erbyn tlodi ymhlith plant yng Nghymru: a oes strategaethau addysg effeithiol ar waith? Sefydliad Joseph Rowntree 2007

Cynhadledd Engaging Parents in Education – Capita 2008

Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau sy'n canolbwyntio ar y gymuned gan ysgolion Estyn Mai 2008

Developing partnerships between parents and schools in Scotland – Parentzone Scotland 2008

Effective intervention in Primary Schools: What Nurture Groups achieve M.Bennathan 1997 Routledge

Effaith Rhagori Estyn Gorffennaf 2008

Parents and Schools: Customers, Managers or Partners? J.Bastiani 1993

Prioritising Parental Engagement Julia Gault, DSCSF 2008

The Impact of Parental Involvement on Children's Education Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd 2008

The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievements and adjustment: A Literature Review Yr Athro Charles Desforges gydag Alberto Abouchaar, cyhoeddwyd gan DfES 2003

Why Parental Involvement in Numeracy? Tîm rhifedd WELB CASS, Gog Iwerddon

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned Cylchlythyr CCC 34/2003

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Rosemary Lait AEM	Awdur adroddiad y cylch gwaith a thîm yr arolwg
Gwen Davies AY	Tîm yr arolwg
Iwan Roberts AY	Tîm yr arolwg